NUJ submission to the Culture, Welsh Language and Communication Committee inquiry, News Journalism in Wales

May 2017

1. The National Union of Journalists welcomes the committee's inquiry into what the union believes is a crisis in news provision in Wales. In its media manifesto for Wales, the NUJ called for a publicly-owned, fee-funded BBC and greater oversight and scrutiny of public service broadcasting in Wales by the Welsh Government and Assembly, plus a vibrant and properly-resourced S4C funded and managed in Wales. ITV in Wales must be committed to public-service provision of news and current affairs and play a central role in shining a light on Welsh life.
2. The union would like to express thanks for the Assembly's support during the union's Local News Matters Week, including a statement of opinion (OPIN-2017-0033 – Local News Matters Week) which called for local papers to be treated as community assets; new rules to prevent local media outlets from closing overnight – they should be offered to potential new owners, including local co-operatives, with the time available to submit a bid for alternative media ownership in advance of any closure; action by government and employers to stem the relentless job cuts; and increasing investment, from a range of sources, for quality local journalism.
3. The NUJ Welsh manifesto reported a crisis in the media in Wales with cuts to journalist posts which has resulted in less coverage of democratic institutions. It said: "A Wales where government operates, unreported and unchallenged, is a weaker Wales. A Wales where courts pass judgements that affect individuals and society as a whole, untroubled by the critical presence of the press, is a weaker Wales. A Wales where sporting triumph, eisteddfodau crowning or community campaigning goes unheralded is a weaker Wales."
4. The decline of advertising revenue, the move from print to digital, with newspaper groups making their websites free and then increasing the cover price of newspapers has had a deleterious effect on circulation. This is a worldwide phenomenon and it can be argued that Welsh news provision has been particularly hard hit by this trend. While digital traffic is growing, the advertising revenue is not following. According to the News Media Association the revenue of the vast majority of media organisations (81 per cent) comes from print readership, with 12 per cent from digital. These organisations have squandered the opportunity to invest in digital. Instead, they

have used it to cut jobs. These media organisations have largely run a model which expects more than 20 per cent profits, almost unheard of in other sectors. As the profits were squeezed (and they spent unwisely when the going was good), their only tool to appease shareholders was to cut staff without due care for the quality of the product they were producing. The media behemoths such as Facebook and Google are sucking up advertising and hoovering up content from media news organisations. A report by OC&C Strategy Consultants forecasts Facebook and Google will take a 71 per cent share of the total ad market by 2020. Their report stated: "The scale and speed is really a call to action for media companies. By the time [Facebook and Google] get to 70 per cent of the online ad market, that doesn't leave a lot of space left elsewhere." The Assembly should use its influence to see how Google and the like can be persuaded to aid start-up ventures in Wales.

5. The Assembly can play a vital role in looking at ways to increasing investment in quality journalism. The NUJ has called for the strategic use of central and local government advertising and tax credits and tax breaks for local media that meet clearly defined public purposes.
6. The sorry story of the closure of Newsquest's subbing hub in Newport is a salutary tale of where investment by the Welsh government in journalism was sorely misplaced. The hub, which once employed 70 people, edited copy for newspapers as far away as Scotland after production staff were sacked on Newsquest's titles. The Welsh government paid Newsquest, owned by the highly profitable American company Gannett, £340,000 to set up the hub. The grant came, apparently, with the proviso that workers were employed until at least 2020. Newsquest reported a 20 per cent profit of £69m on turnover of £279m in the year it received this Welsh government handout. The Welsh Government confirmed Newsquest also received support under the Skills Growth Wales programme in 2013/2014, of more than £95,000. The hub has now closed with the remaining 14 staff losing their jobs.
7. The lesson of the Newport debacle is that a more strategic approach is required. The Port Talbot Magnet, a not-for-profit community co-operative, was set up seven years ago with a £10,000 grant from the Carnegie Trust. Despite breaking many stories and being popular with readers, the economic pressures on all businesses in Port Talbot following the steel crisis made it impossible to support a local news service through advertising alone and in September 2016 the paper was closed. This is exactly the sort of enterprise that should have been supported. Grants should be made available to start-up media enterprises and the Assembly should be encouraging councils and other public bodies to support them by advertising and sponsorship.
8. The NUJ believes newspapers should be given the status of community assets with new rules to prevent local media outlets from closing overnight and allowing titles to be offered to potential new owners, including local co-operatives, with the time available to submit a bid for alternative media ownership in advance of any closure.

9. Trinity Mirror's Media Wales is the most prominent local news publisher, owning the daily Western Mail, Daily Post and South Wales Echo and a stable of more than 10 weekly publications covering areas in both south and north Wales. Trinity Mirror has taken over Local World titles of the daily South Wales Evening Post and two weekly titles – the Carmarthen Journal and Llanelli Star. This has led to the merger of the Swansea-based South Wales Evening Post website with its Wales Online platform. In 1999 there were almost 700 editorial and production staff at Media Wales. At the end of 2015 Media Wales employed 100 production staff, plus 57 in sales and distribution and 11 in administrative roles. Trinity Mirror makes no secret of its practice of cutting what it describes as "traditional roles" and replacing them with more digitally-focused roles. The NUJ is concerned that this is leading to a loss of reporting specialists who are experts in their field. Trinity Mirror's business model is based on increasing the number of visitors to its websites, and the concern is that this is leading to a greater emphasis on lighter, lifestyle-type material at the expense of more traditional coverage of councils. With greatly-slimmed down newsrooms, our members have noticed acceleration in this trend, which is very worrying in the context of wanting a better-informed electorate.
10. People are doing their best with ever-diminished resources, but it becomes increasingly difficult. However, due to the dedication of our members and the long hours they put in, quality journalism still exists, for example the widely-praised coverage of the Aberfan Disaster around its 50th anniversary last October.
11. Last year, NUJ members at Trinity Mirror North Wales voted to ballot for industrial action over the company's plans which moved Daily Post's political reporter to North Wales, resulting in no specialist based in Cardiff covering the Welsh Assembly. The plans resulted in unfilled roles, including the newspaper's executive editor, and the abolition of one digital reporter. This followed two former Daily Post reporters being transferred within Trinity Mirror and not being replaced.
12. As part of the BBC's local democracy reporters' (LDRs) scheme, which is using £8m of licence-fee payers' money to fund reporters to work for commercially-owned local newspapers covering councils, Wales has been given an allocation of 11 so-called LDRs. During correspondence with Welsh Assembly AM Simon Thomas over the sacking of the Daily Post's political correspondent covering the Assembly from Cardiff, Trinity Mirror's CEO, Simon Fox, said: "It is worth you knowing that we remain in discussions with the BBC about synergistic working. It may be, emerging from this, that further improvements to our political coverage may be possible." The NUJ needs to have assurances that vacancies are not plugged by these LDRs. This would be a very cynical use of the scheme.
13. Journalists at the Daily Post discovered their office was closing in a press release from Lidl supermarket, which is planning to take over the site for redevelopment. The newspaper staff is to move to new facilities five miles away in Colwyn Bay later this year after 16 years at its office in Vale Road, Llandudno Junction, Wales. The

title has an average daily circulation of 21,802 copies and records 99,963 unique daily visitors to its website, according to the latest ABC figures. The Post team will share space with staff on the North Wales Weekly News, the Caernarfon and Denbigh Herald and the Bangor and Holyhead Mail series in the new office – making up about 30 journalists in all. The Press Gazette said the staff had not been consulted and knew nothing about it until they read the Lidl press release.

14. There are substantial Welsh towns that do not have a local newspaper or professional journalists covering them, such as Neath and Port Talbot (combined population 88,000) since their newspapers were closed by Trinity Mirror in 2009. The population of Neath-Port Talbot county borough, the eighth largest local authority in Wales, was 141,000, according to the 2011 census.
15. In April 2015, more than 100 people, including council leaders and local MPs gathered at Turf Square, Caernarfon, to protest against Trinity Mirror's proposal to close its Caernarfon office. Once dubbed the Welsh capital of ink, Caernarfon had long been associated with journalism and the Caernarfon and Denbigh Herald has existed in various guises since 1831. The chapel said it would also take journalists further away from the communities they are meant to serve and would affect the Welsh language service the company would be able to offer customers and readers should the office close.
16. The NUJ has been reporting problems in the industry in Wales for some time. Michelle Stanistreet, NUJ general secretary, told the All Party Parliamentary Group on the media in Wales in July 2012: "As local newspaper groups are bought up by large conglomerates with headquarters in London and the USA, Welsh newspapers have found they are losing their distinctive voice. The industry is being hit by the UK and worldwide crisis – in the past seven years, 20 per cent of the UK's local papers have closed with only 70 new launches. The blame has been put on the transition to the internet with a lot of content being made free, the drop in advertising revenue caused by the recession and falling circulations. But it is not as simple as that. Between the start of 2003 and the end of 2007, Media Wales's profit margins averaged 34 per cent, peaking at 38 per cent for the 12 months to the end of 2005. These profits made Media Wales one of the most profitable companies in Wales of any kind, let alone in the media industry. But these profits were not invested in the business. When Sly Bailey, Trinity Mirror's chief executive, left the group, she had pocketed more than £14 million, despite the workforce being cut by a half and a share price that plummeted by 90 per cent during her tenure."
17. A common response of owners such as Trinity Mirror is to point to their substantial gains in digital audience share, but this belies the loss of journalists and their experience and the resulting loss of local community coverage as newsrooms have become centralised. Print newspapers remain important resources for many communities, but more important are the journalists they employ and the duties they have in proving information and the scrutiny they provide in the service of local

democracy. Recent research into the impact of so-called 'news black holes' on audiences has recently been carried out at Cardiff University. The study examined the town of Port Talbot following the 2009 closure of its weekly newspaper, the Port Talbot Guardian. Its findings included:

- Local people were heavily reliant on word of mouth for their news, meaning rumour and speculation were key features of any public debate or discussion.
- Local institutions were opaque and it was difficult for members of the public to navigate them, to obtain information, get answers to their queries, or complain.
- People were falling back on unconventional means to obtain information, including protest graffiti.
- Frustration and anger was common and it was most marked in the youngest members of the community. They spoke at length about their willingness to riot to make their voices heard.
- News provision by traditional media had been diminishing in quality for many decades as resources were withdrawn from newsrooms, but important markers of quality deteriorated more rapidly when journalists were dislocated from their communities at the closure of the last two local newspaper district offices.
- A significant finding was that election turnout averages in council, Welsh Assembly and general elections, which had historically been above national averages in the local Aberavon constituency, fell and subsequently remained below the national average around the time of the closure of the newspapers' district offices. This suggests in stark terms the likelihood of a serious democratic deficit following the withdrawal of local print journalists from the community.

18. In November, 2016 Trinity Mirror announced the closure of its Cardiff printing press with 33 jobs affected.
19. There have been more than 100 job cuts at BBC Wales since 2012, with £10m slashed from programming budgets in the same period. Investment in English language programming has fallen by 32 per cent in real terms in the past decade**.** Despite this, the BBC in Wales continues to play a central role in the lives of the people of Wales. BBC Wales has two reporters and a producer covering Westminster.
20. Funding for S4C has been cut by £18.2m since 2009. Its Newyddion 9 news bulletin is watched by 18,000 viewers per episode while the political debate programme Pawb a'i Farn attracts 13,000 viewers per episode. S4C regularly attracted audiences of above 20,000 for eisteddfodau coverage in 2014/15.
21. There is no published separate budget for ITV Cymru Wales, though estimates based on Ofcom sources put it at about £7 million. The overall budget for all ITV's English regional and Welsh output is £64 million, down from more than £100 million and now frozen in cash terms. The gap between the programme makers' ambition and their financial resources is sometimes apparent, for example ITV Cymru Wales rugby world cup programmes lacked pitch-side presentation, unlike ITV network (and S4C).

22. About 10 years ago in north Wales, the BBC's online offering was being served by a dedicated news service and a magazine operation, in the guise of the Where I Live teams. BBC Bangor and BBC Wrexham each had a producer, researcher and news reporter dedicated to serving the north-west Wales and north-east Wales regions. These services were put to the sword in a reorganisation prompted by complaints of the newspaper industry that the BBC was over-stepping its remit and hitting local newspapers. It resulted in one producer role in north Wales merging into the general news online services, along with the two reporters. The researcher posts were lost entirely, while another producer took voluntary redundancy. The Where I Live sites were closed and local news need was supposed to be met by the regional news indexes.
23. The English language News Online in north Wales is now covered by three posts – half the number of 10 years ago. But not a single member of this north Wales online team is dedicated to covering north Wales's stories. They are in the general online shift mix, working rotas to maintain the site and stories from a Wales-wide perspective.
24. Reorganisation of BBC Wales services to meet complaints from the newspaper industry has worsened that position, while the response of the newspaper industry was not to invest in the perceived local hole being left by the BBC – but to accelerate cuts to its local reporting. But, should public bodies, such as the BBC, be investing licence-fee cash in the private sector, rather than back into its own local services? Recent history of local newspaper investment in its own local journalism in north Wales does not bode confidence.
25. Lack of media plurality is a major problem in the press in the UK. Research commissioned by the NUJ revealed that 45 per cent of 380 Local Authority Districts in England, Scotland and Wales were served by a single regional newspaper publisher providing one or more titles. Therefore, the UK regional newspaper market contained 165 local monopolies. Analysis of local newspaper digital output also found that lack of plurality was often not affected when online news provision by regional titles was taken into account.

    - Mapping changes in local news 2015-2017: more bad news for democracy? Dr Gordon Neil Ramsay, deputy director for the centre for the study of media, communication and power at King's College London https://www.nuj.org.uk/documents/mapping-changes-local-news-2017/
    - Journey to the centre of a news black hole: examining the democratic deficit in a town with no newspaper, Rachel Howells https://www.nuj.org.uk/documents/journey-to-the-centre-of-a-news-black-hole-examining-the/

Cyflwyniad yr NUJ i ymholiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Newyddiaduraeth Newyddion yng Nghymru

Mai 2017

26. Mae Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr yn croesawu ymholiad y pwyllgor i'r hyn sydd, yng nghred yr undeb, yn argyfwng yn y ddarpariaeth newyddion yng Nghymru. Yn ei faniffesto ar y cyfryngau yng Nghymru, galwodd yr NUJ am gael BBC sy'n perthyn i'r cyhoedd ac a ariennir gan ffi'r drwydded. Mae'n galw hefyd am fwy o oruchwyliaeth a chraffu ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad, ynghyd ag S4C lewyrchus, ag adnoddau priodol, ac a ariennir ac a reolir yng Nghymru. Mae'n rhaid i ITV yng Nghymru fod yn ymrwymedig i ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus o ran newyddion a materion cyfoes, a chwarae rhan ganolog wrth daflu goleuni ar fywyd yng Nghymru.
27. Dymuna'r undeb fynegi ei ddiolch am gefnogaeth y Cynulliad yn ystod Wythnos Mae Newyddion Lleol o Bwys yr undeb, yn cynnwys y datganiad o farn (OPIN--2017-0033 - Wythnos Mae Newyddion Lleol o Bwys) a alwodd am i bapurau lleol gael eu trin fel asedau cymunedol; am reolau newydd i atal allfeydd cyfryngau lleol rhag cau yn ddirybudd – dylid eu cynnig i ddarpar berchenogion newydd, yn cynnwys mentrau cydweithredol lleol, gan neilltuo amser ar gyfer cyflwyno cais am berchenogaeth amgen ar y cyfryngau cyn i unrhyw achos o gau ddigwydd; am i'r llywodraeth a chyflogwyr weithredu i atal y llif didostur o dorri swyddi; ac am gynyddu buddsoddiad, o amrywiaeth o ffynonellau, mewn newyddiaduraeth leol o ansawdd.
28. Adroddodd Maniffesto Cymru'r NUJ ar yr argyfwng yn y cyfryngau yng Nghymru gyda thoriadau i swyddi newyddiadurol sydd wedi arwain i ostyngiad yn yr ymdriniaeth o sefydliadau democrataidd. Dywedodd: "Mae Cymru ble mae'r llywodraeth yn gweithredu, heb rywun i adrodd arni a heb ei herio, yn Gymru wannach. Mae Cymru ble mae llysoedd yn traddodi dedfrydau sy'n effeithio ar unigolion a'r gymdeithas gyfan, heb ofidio am bresenoldeb beirniadol y wasg, yn Gymru wannach. Mae Cymru ble mae buddugoliaeth mewn chwaraeon, coroni mewn eisteddfod neu ymgyrchu gan y gymuned yn mynd heibio heb eu cyhoeddi, yn Gymru wannach."
29. Mae'r dirywiad mewn refeniw hysbysebu, y newid o argraffu i ddigidol, gyda grwpiau papurau newydd yn darparu eu gwefannau am ddim ac yna'n codi pris papurau newydd, wedi cael effaith andwyol ar gylchrediad. Mae hwn yn ffenomen byd-eang a gellid dadlau bod y ddarpariaeth newyddion yng Nghymru wedi dioddef yn arbennig

oherwydd y duedd hon. Er bod trafnidiaeth ddigidol ar gynnydd, nid yw refeniw hysbysebu yn dilyn yr un patrwm. Yn ôl Cymdeithas y Cyfryngau Newyddion, daw refeniw'r mwyafrif llethol o sefydliadau cyfryngau (81 y cant) oddi wrth ddarllenwyr print, gyda 12 y cant yn dod o'r digidol. Mae'r sefydliadau hyn wedi gwastraffu'r cyfle i fuddsoddi mewn digidol. Yn lle hynny, maent wedi mynd ati i dorri swyddi. I raddau helaeth, mae'r sefydliadau cyfryngau hyn wedi rhedeg model sy'n disgwyl elw o fwy nag 20 y cant, sydd heb ei debyg mewn sectorau eraill. Wrth i'r elw gael ei wasgu (a buont yn gwario'n annoeth pan oedd pethau'n ffynnu), eu hunig erfyn i dawelu'r cyfranddalwyr oedd torri staff heb ofal dyladwy am ansawdd y cynnyrch roeddent yn ei gynhyrchu. Mae behemothiaid y cyfryngau, fel Gweplyfr a Google, yn llyncu hysbysebu ac yn hwfro'r cynnwys oddi wrth sefydliadau newyddion y cyfryngau. Mae adroddiad yr Ymgynghorwyr Strategaeth OC&C yn rhagweld y bydd Gweplyfr a Google wedi cipio cyfran o 71 y cant o gyfanswm y farchnad hysbysebu erbyn 2020. Nododd eu hadroddiad: “Mae'r raddfa a'r cyflymder hyn yn alwad grymus am weithredu gan y cwmnïau cyfryngau. Pan fydd [Gweplyfr a Google] wedi cyrraedd 70 y cant o'r farchnad hysbysebu ar-lein, ni fydd hynny'n gadael llawer o le ar ôl yn rhywle arall.” Dylai'r Cynulliad ddefnyddio'i ddylanwad i geisio perswadio Google a'i debyg i gynorthwyo mentrau newydd yng Nghymru.

30. Gall y Cynulliad chwarae rhan hanfodol wrth edrych ar ffyrdd o gynyddu buddsoddiad mewn newyddiaduraeth o ansawdd. Mae'r NUJ wedi galw am ddefnydd strategol o hysbysebu gan lywodraeth leol a chanolog, a chredydau treth ac eithriadau treth i gyfryngau lleol sy'n bodloni dibenion cyhoeddus tra ddiffiniedig.
31. Mae'r stori druenus am gau hyb is-olygu Newsquest yng Nghasnewydd yn enghraifft lesol o fuddsoddiad mewn newyddiaduraeth gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gamleoli'n enbyd. Roedd yr hyb, a gyflogai 70 o bobl ar un adeg, yn golygu deunydd copi ar gyfer papurau newydd cyn belled i ffwrdd a'r Alban ar ôl i Newsquest ddiswyddo staff cynhyrchu ar eu teitlau. Talodd Llywodraeth Cymru £340,000 i Newsquest, sy'n perthyn i'r cwmni tra phroffidiol Americanaidd, Gannett, i sefydlu'r hyb. Mae'n debyg i'r grant gael ei rhoi ar yr amod bod y gweithwyr yn cael eu cyflogi tan o leiaf 2020. Adroddodd Newsquest elw o 20 y cant, sef £69 miliwn, ar drosiant o £279 miliwn yn y flwyddyn pan dderbyniodd y rhodd gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru bod Newsquest hefyd wedi derbyn cymorth o fwy na £95,000 dan y rhaglen Sgiliau Twf Cymru yn 2013/2014. Mae'r hyb wedi cau bellach, gyda'r 14 o staff oedd ar ôl yn colli eu swyddi.
32. Y wers i'w dysgu o'r ffiasgo yng Nghasnewydd yw bod angen ymagwedd fwy strategol. Cafodd y Port Talbot Magnet, cwmni cydweithredol cymunedol dielw, ei sefydlu saith mlynedd yn ôl gyda grant o £10,000 gan Ymddiriedolaeth Carnegie. Er iddo gyhoeddi llawer o storïau ac iddo fod yn boblogaidd gyda’i ddarllenwyr, oherwydd y pwysau economaidd ar yr holl fusnesau ym Mhort Talbot ar ôl yr argyfwng dur, roedd yn amhosibl cynnal gwasanaeth newyddion lleol drwy hysbysebu yn unig, ac ym mis Medi 2016 cafodd y papur ei gau. Dyma'r union fath o

fenter ddylai fod wedi cael cefnogaeth. Dylid darparu grantiau i fentrau cyfryngau newydd a dylai'r Cynulliad fod yn annog cynghorau a chyrff cyhoeddus eraill i'w cefnogi drwy hysbysebu a nawdd.

33. Mae'r NUJ o'r gred y dylai papurau newydd gael statws asedau cymunedol gyda rheolau newydd i atal allfeydd cyfryngau lleol rhag cau yn ddirybudd, a chynnig teitlau i ddarpar berchenogion newydd, yn cynnwys mentrau cydweithredol lleol, gan neilltuo amser ar gyfer cyflwyno cais am berchenogaeth amgen ar y cyfryngau cyn i unrhyw achos o gau ddigwydd.
34. Cyfryngau Cymru Trinity Mirror yw'r cyhoeddwr newyddion lleol blaenllaw yng Nghymru, yn berchen ar y papurau dyddiol, y Western Mail, y Daily Post a'r South Wales Echo, ynghyd â chasgliad o fwy na 10 cyhoeddiad wythnosol yn cwmpasu ardaloedd yn ne ac yng ngogledd Cymru. Mae Trinity Mirror wedi cymryd y teitlau Local Word drosodd, sef y South Wales Evening Post dyddiol a dau deitl wythnosol – y Carmarthen Journal a'r Llanelli Star. Mae hyn wedi arwain at gyfuno gwefan y South Wales Evening Post yn Abertawe â'i blatfform, Wales Online. Yn 1999 roedd bron 700 o staff golygyddol a chynhyrchu yng Nghyfryngau Cymru. Ar ddiwedd 2015 roedd Cyfryngau Cymru'n cyflogi 100 o staff cynhyrchu, ynghyd â 57 mewn gwerthiant a dosbarthu ac 11 mewn rolau gweinyddol. Nid yw Trinity Mirror yn ceisio cuddio'i arfer o dorri'r hyn a ddisgrifia'n "rolau traddodiadol" a'u newid am rolau sydd â ffocws mwy digidol. Mae'r NUJ yn pryderu bod hyn yn arwain at golli arbenigwyr gohebu sy'n awdurdodau yn eu maes. Mae model busnes Trinity Mirror yn seiliedig ar gynyddu nifer yr ymwelwyr i'w wefannau, a'r pryder yw bod hyn yn creu mwy o bwyslais ar ddeunydd ysgafnach, o'r math dull o fyw, ar draul ymdriniaeth fwy traddodiadol o gynghorau. Gyda'r ystafelloedd newyddion wedi eu tocio'n llym, mae ein haelodau wedi sylwi bod y duedd hon yn cyflymu, gan beri gofid mawr o ran yr angen am i etholwyr fod yn fwy gwybodus.
35. Mae pobl yn gwneud eu gorau gydag adnoddau sy'n lleihau'n barhaus, ond mae hyn yn mynd yn fwyfwy anodd. Fodd bynnag, oherwydd ymroddiad ein haelodau a'r oriau hir maent yn gweithio, mae newyddiaduraeth o ansawdd yn dal i fodoli, er enghraifft yr ymdriniaeth wrth gofáu 50 mlynedd ers Trychineb Aberfan fis Hydref diwethaf, a gafodd ganmoliaeth eang.
36. Y llynedd, penderfynodd aelodau'r NUJ yn Trinity Mirror Gogledd Cymru bleidleisio dros weithredu diwydiannol oherwydd cynlluniau'r cwmni i symud gohebydd gwleidyddol y Daily Post i Ogledd Cymru, a olygai nad oedd arbenigwr yng Nghaerdydd i ymdrin â Chynulliad Cymru. O ganlyniad i'r cynlluniau, gadawyd rolau heb eu llenwi, yn cynnwys golygydd gweithredol y papur newydd, a diswyddwyd un gohebydd digidol. Roedd hyn ar ôl i ddau gyn-ohebydd y Daily Post gael eu symud o fewn Trinity Mirror heb ail-lenwi'r swyddi hynny.
37. Fel rhan o gynllun gohebwyr democratiaeth leol y BBC (LDRs), sy'n defnyddio £8 miliwn o arian talwyr ffi'r drwydded i ariannu gohebwyr i weithio i bapurau newydd lleol sy'n perthyn i gwmnïau masnachol ac sy'n ymdrin â chynghorau, mae Cymru

wedi rhoi dyraniad o 11 LDR, fel y'u gelwir. Mewn gohebiaeth gyda'r AC Cynulliad Cymru, Simon Thomas, ar ddiswyddo gohebydd gwleidyddol y Daily Post oedd yn ymdrin â'r Cynulliad o Gaerdydd, dywedodd Prif Swyddog Gweithredol Trinity Mirror, Simon Fox: “Mae'n werth i chi wybod ein bod yn parhau i drafod gyda'r BBC ynglŷn â gweithio synergaidd. Yn sgil hyn, efallai bydd gwelliannau ychwanegol i'n hymdriniaeth wleidyddol yn bosibl.” Mae angen cadarnhad ar yr NUJ nad yw swyddi gwag yn cael eu llenwi gan yr LDRs hyn. Byddai hyn yn ddefnydd sinigaidd iawn o'r cynllun.

38. Clywodd newyddiadurwyr yn y Daily Post bod eu swyddfa'n cau drwy ddatganiad i'r wasg gan archfarchnad Lidl, sy'n bwriadu cymryd y safle drosodd i'w ailddatblygu. Bydd staff y papur newydd yn cael eu symud i gyfleusterau newydd pum milltir i ffwrdd ym Mae Colwyn yn ddiweddarach eleni ar ôl 16 mlynedd yn Vale Road, Cyffordd Llandudno, Cymru. Mae gan y teitl gylchrediad dyddiol cyfartalog o 21,802 o gopïau ac mae'n cofnodi 99,963 o ymwelwyr dyddiol unigryw i'w wefan, yn ôl ffigurau diweddaraf ABC. Bydd tîm y Post yn rhannu lle gyda staff y gyfres bapurau, y North Wales Weekly News, y Caernarfon and Denbigh Herald, a'r Bangor and Holyhead Mail yn y swyddfa newydd – sef cyfanswm o 30 o newyddiadurwyr. Dywedodd y Press Gazette na fu unrhyw ymgynghori â'r staff ac nid oeddent yn gwybod dim am y peth nes iddynt ddarllen y datganiad i'r wasg gan Lidl.
39. Mae trefi sylweddol yng Nghymru heb bapur newydd lleol neu newyddiadurwyr proffesiynol i'w cynrychioli, fel Castell-nedd a Phort Talbot (poblogaeth gyfunol o 88,000), ers i'w papurau newydd gael eu cau gan Trinity Mirror yn 2009. Roedd poblogaeth bwrdeistref sirol Castell-nedd Port Talbot, yr wythfed awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru, yn 141,000 yn ôl cyfrifiad 2011.
40. Yn Ebrill 2015, ymgasglodd mwy na 100 o bobl, yn cynnwys arweinwyr cyngor ac ASau lleol yn Sgwâr y Pendist, Caernarfon, i brotestio yn erbyn cynnig Trinity Mirror i gau ei swyddfa yng Nghaernarfon. Roedd Caernarfon yn adnabyddus gynt fel prif ddinas yr inc yng Nghymru oherwydd ei chysylltiad hir â newyddiaduraeth, ac mae'r Caernarfon and Denbigh Herald wedi bodoli ar amrywiol ffurfiau ers 1831. Yn ôl y gyfrinfa, pe byddai'r swyddfa'n cau byddai hyn yn pellhau newyddiadurwyr yn fwy oddi wrth y cymunedau y dylent fod yn eu gwasanaethu, ac yn effeithio ar y gwasanaeth Cymraeg y gallai'r cwmni ei gynnig i gwsmeriaid a darllenwyr.
41. Mae'r NUJ wedi bod yn adrodd ar y problemau yn y diwydiant yng Nghymru ers tro. Dywedodd Michelle Stanistreet, ysgrifennydd cyffredinol yr NUJ, wrth y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar y cyfryngau yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2012: "Wrth i grwpiau papurau newydd lleol gael eu prynu gan uwchgwmnïau mawr sydd â'u pencadlys yn Llundain a'r Unol Daleithiau, mae papurau newydd yng Nghymru wedi gweld eu bod yn colli eu llais unigryw. Mae'r diwydiant yn dioddef oddi wrth yr argyfwng yn y DU ac yn fyd-eang – yn y saith mlynedd diwethaf, mae 20 y cant o bapurau lleol y DU wedi cau gyda dim ond 70 o lansiadau newydd. Rhoddwyd y bai ar y symudiad i'r rhyngrwyd ble mae llawer o gynnwys yn cael ei gynnig am ddim, ac

ar y gostyngiad mewn refeniw hysbysebu a achoswyd gan y dirwasgiad a chylchrediadau gostyngol. Ond nid yw mor syml â hynny. Rhwng dechrau 2003 a diwedd 2007, roedd maint elw cyfartalog Cyfryngau Cymru yn 34 y cant, gan gyrraedd brig o 38 y cant dros y 12 mis tan ddiwedd 2005. Oherwydd yr elw hwn, roedd Cyfryngau Cymru'n un o'r cwmnïau mwyaf proffidiol o unrhyw fath yng Nghymru, heb sôn am yn niwydiant y cyfryngau. Ond ni chafodd yr elw hwn ei fuddsoddi yn y busnes. Pan adawodd Sly Mailey, Prif Weithredwr Trinity Mirror, y grŵp, roedd wedi pocedu mwy na £14 miliwn er bod y gweithlu wedi ei haneru bron iawn ac er bod pris y cyfranddaliadau wedi plymio o 90 y cant yn ystod ei daliadaeth."

42. Un o ymatebion cyffredin perchenogion fel Trinity Mirror yw nodi eu henillion sylweddol o ran eu cyfran o'r gynulleidfa ddigidol, ond mae hyn yn cuddio'r golled o newyddiadurwyr a'u profiad, a'r golled ddilynol o'r ymdriniaeth o'r gymuned leol wrth i ystafelloedd newyddion gael eu canoli'n fwyfwy. Mae papurau newydd print yn parhau i fod yn adnoddau pwysig i lawer o gymunedau, ond yn bwysicach na'r rhain mae'r newyddiadurwyr a gyflogir ganddynt, eu dyletswyddau i brofi gwybodaeth, a'r craffu a ddarperir ganddynt er mwyn gwasanaethu democratiaeth leol. Cynhaliwyd ymchwil yn ddiweddar gan Brifysgol Caerdydd i effaith 'y tyllau duon newyddion' fel y'u gelwir ar gynulleidfaoedd. Astudiodd yr ymchwil dref Port Talbot ar ôl i'w phapur newydd wythnosol, y Port Talbot Guardian, gau yn 2009. Dyma rai o'r casgliadau:

- Roedd pobl leol yn dra dibynnol ar glywed eu newyddion ar lafar, sy'n golygu bod sïon a gwagddyfalu yn nodweddion allweddol mewn unrhyw ddadl neu drafodaeth gyhoeddus.
- Roedd sefydliadau lleol yn anrhyloyw ac roedd yn anodd i aelodau o'r cyhoedd lywio o'u cwmpas, i gael gwybodaeth, i gael atebion i'w ymholiadau, neu i gwyno.
- Roedd pobl yn syrthio nôl ar ddulliau anghonfensiynol o gael gwybodaeth, yn cynnwys graffiti protestio.
- Roedd rhwystredigaeth a dicter yn gyffredin ac roedd hyn yn fwyaf nodedig ymhlith aelodau ieuaf y gymuned. Byddent yn siarad yn bur faith am eu parodrwydd i derfysgu er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed.
- Roedd y ddarpariaeth newyddion drwy'r cyfryngau traddodiadol wedi gwaethygu o ran ei hansawdd ers degawdau lawer wrth i adnoddau gael eu tynnu'n ôl o'r ystafelloedd newyddion, ond gwaethygodd y marcwyr ansawdd pwysig yn gyflymach fyth pan gafodd newyddiadurwyr eu hafleoli o'u cymunedau ar ôl cau swyddfeydd ardal y ddau bapur newydd lleol olaf.
- Un o'r casgliadau arwyddocaol oedd bod cyfartaledd y ganran a bleidleisiodd yn etholiadau'r cyngor, Cynulliad Cymru a'r etholiadau cyffredinol – a oedd yn hanesyddol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn etholaeth leol Aberafan – wedi gostwng ac yna wedi aros islaw'r cyfartaledd cenedlaethol oddi ar yr amser pan gaeodd swyddfeydd ardal y papurau newydd. Mae hyn yn awgrymu'n foel bod diffyg

democrataidd difrifol yn debygol o ddod i'r amlwg ar ôl tynnu newyddiadurwyr print lleol o'r gymuned.

43. Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Trinity Mirror ei fod yn cau gwasg argraffu Caerdydd gan effeithio ar 33 o swyddi.
44. Torrwyd mwy na 100 o swyddi yn BBC Wales ers 2012, gyda £10 miliwn yn cael ei slaesio o'r cyllidebau rhaglennu yn yr un cyfnod. Mae'r buddsoddiad mewn rhaglennu Saesneg wedi gostwng o 32 y cant mewn termau real yn ystod y degawd diwethaf**.** Er gwaethaf hyn, mae'r BBC yng Nghymru yn parhau i chwarae rhan ganolog ym mywydau pobl Cymru. Mae gan BBC Wales ddau ohebydd a chynhyrchydd sy'n ymdrin â San Steffan.
45. Mae'r cyllid ar gyfer S4C wedi ei dorri o £18.2 miliwn ers 2009. Mae 18,000 o wylwyr yn gweld pob pennod o'i fwletin newyddion, Newyddion 9, tra bod pob pennod o'r rhaglen ddadlau wleidyddol, Pawb a'i Farn, yn denu 13,000 o wylwyr. Denodd S4C gynulleidfaoedd o dros 20,000 yn rheolaidd ar gyfer yr ymdriniaeth o'r eisteddfodau yn 2014/15.
46. Nid oes cyllideb gyhoeddedig ar wahân ar gael ar gyfer ITV Cymru Wales, ond mae amcangyfrifon seiliedig ar ffynonellau Ofcom yn ei gosod ar tua £7 miliwn. Y gyllideb gyffredinol ar gyfer holl allbwn Rhanbarthol Saesneg a Chymraeg ITV yw £64 miliwn, sydd wedi gostwng o'r swm blaenorol o dros £100 miliwn, ac sydd bellach wedi ei rewi yn nhermau arian parod. Mae'r bwlch rhwng uchelgais y gwneuthurwyr rhaglenni a'u hadnoddau ariannol yn amlwg weithiau, er enghraifft, nid oedd cyflwyniad wrth ochr y cae yn rhaglenni cwpan y byd rygbi ITV Cymru Wales, yn wahanol i rwydwaith ITV (ac S4C).
47. Tua 10 mlynedd yn ôl yng Ngogledd Cymru, roedd cynnig ar-lein y BBC yn cael ei wasanaethu gan wasanaeth newyddion penodedig a gweithrediad cylchgronau, ar ffurf y timau Where I Live. Roedd gan BBC Bangor a BBC Wrecsam eu cynhyrchydd, ymchwilydd a gohebydd newyddion eu hun yn canolbwyntio ar wasanaethu rhanbarthau gogledd-orllewin Cymru a gogledd-ddwyrain Cymru. Aberthwyd y gwasanaethau hyn mewn ad-drefnu a sbardunwyd gan gwynion y diwydiant papurau newydd fod y BBC yn mynd y tu hwnt i'w gylch gwaith ac yn effeithio ar bapurau newydd lleol. O ganlyniad, cyfunwyd rôl un cynhyrchydd yng Ngogledd Cymru â'r gwasanaethau newyddion ar-lein cyffredinol, ar y cyd â'r ddau ohebydd. Diflannodd y swyddi ymchwilwyr yn llwyr, ac ymddiswyddodd cynhyrchydd arall yn wirfoddol. Cafodd safleoedd Where I Live eu cau a thybiwyd bod yr angen am newyddion lleol yn cael ei fodloni gan y mynegeion newyddion rhanbarthol.
48. Nawr mae tair swydd yn rhedeg y rhaglen Saesneg, News Online, yng ngogledd Cymru – hanner y nifer oedd yno 10 mlynedd yn ôl. Ond nid oes yr un aelod o'r tîm ar-lein hwn ar gyfer Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar ymdrin â storïau Gogledd Cymru. Maent yn rhan o'r cymysgedd sifftiau ar-lein cyffredinol, yn gweithio rotâu i gynnal y safle a storïau o safbwynt Cymru gyfan.

49. Mae ad-drefnu gwasanaethau BBC Cymru oherwydd y cwynion gan y diwydiant papurau newydd wedi gwaethygu'r sefyllfa honno, ac ymateb y diwydiant papurau newydd i hyn oedd peidio â buddsoddi yn y bwlch lleol canfyddedig a adawyd gan y BBC – ond yn hytrach, cyflymu'r toriadau i'w ohebu lleol. Ond, a ddylai cyrff cyhoeddus, fel y BBC, fod yn buddsoddi arian ffi'r drwydded yn y sector preifat, yn hytrach nag yn ôl yn ei wasanaethau lleol ei hun? Nid yw hanes diweddar buddsoddiad papurau newydd lleol yn eu newyddiaduraeth lleol eu hun yma yng Ngogledd Cymru yn magu llawer o hyder.
50. Mae diffyg lluosogrwydd y cyfryngau yn broblem fawr yn y wasg yn y DU. Dangosodd ymchwil a gomisiynwyd gan yr NUJ bod 45 y cant o'r 380 o Ardaloedd Awdurdodau Lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn cael eu gwasanaethu gan un cyhoeddwr papurau newydd rhanbarthol oedd yn darparu un neu fwy o deitlau. Felly, roedd marchnad papurau newydd rhanbarthol y DU yn cynnwys 165 o fonopolïau lleol. Yn ôl dadansoddiad o allbwn digidol papurau newydd lleol, nid oedd unrhyw effaith ar y diffyg lluosogrwydd yn aml wrth ystyried y ddarpariaeth newyddion ar-lein gan deitlau rhanbarthol.

    - Mapio newidiadau mewn newyddion lleol 2015-2017: mwy o newyddion drwg i ddemocratiaeth? Dr Gordon Neil Ramsay, dirprwy gyfarwyddwr canolfan astudio'r cyfryngau, cyfathrebu a grym yn King's College Llundain https://www.nuj.org.uk/documents/mapping-changes-local-news-2017/
    - Taith i ganol twll du newyddion: archwilio'r diffyg democrataidd mewn tref heb bapur newydd, Rachel Howells https://www.nuj.org.uk/documents/journey-to-the-centre-of-a-news-black-hole-examining-the/